



CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd

28 Mehefin (yh)

Siambwr Cyngor Sir Ynys Môn

Presennol:

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Kenneth Hughes
Cyng. Richard O. Jones
Cyng. Bryan Owen

Cyngor Gwynedd

Cyng. Sian Wyn Hughes
Cyng. Berwyn Parry Jones
Cyng. Dafydd Meurig
Cyng. Catrin Elen Wager
Cyng. Owain Williams

Ymddiheuriadau:

Cyng. Nicola Roberts
Cyng. Robin Wyn Williams
Cyng. John Brynmor Hughes
Cyng. John Pughe Roberts

Swyddogion:

Gareth Jones	Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd (CG)
Dylan Williams	Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (CSYM)
Nia Haf Davies	Rheolwr - UPCC
Eirian Harris	Cynorthwy-ydd Cynllunio Cefnogol - UPCC

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni chafwyd datganiadau personol.

3. MATERION BRYD

Ni chafodd materion bryd eu cyflwyno.

4. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y Panel a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2017 yn rhai cywir. Cafwyd diweddariad ar Eitem 6) sef Adolygiad o'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd gan Dylan Williams. Esboniwyd fod trafodaethau yn parhau rhwng y ddau Gyngor.

5. CYLCH GORCHWYL – PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD

Cyflwynwyd adroddiad yn esbonio trefniant cyfredol y Panel, gan nodi byddai'n cael ei adolygu ar ôl mabwysiadu'r Cynllun.

6. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – DIWEDDARIAD

Cafwyd trosolwg o'r Cynllun drwy ddiagram yn amlinellu'r camau y broses ac erbyn hyn 'rydym wedi cyrraedd Cam 9), sef mabwysiadu'r Cynllun.

Archwiliad

Cafwyd esboniad ynglŷn â'r broses Archwiliad Cyhoeddus. Cynhaliwyd nifer o Wrandawiadau ar bynciau amrywiol. Cafwyd nifer o Bwyntiau Gweithredu. Cafodd y 'Pwyntiau Gweithredu' eu cyfarch a'u cofrestru fel 'Newidiadau Materion sy'n Codi'. Yn dilyn y cam yma bu'r 'Newidiadau Materion sy'n Codi' yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Penderfynodd yr Arolygwr i gynnal dau sesiwn 'Gwrandawiadau' ychwanegol.

Derbyniwyd adroddiad rhwymol gan yr Arolygwr ar gyfer 'Gwirio Ffeithiau'. Mae'r rhan yma wedi ei gwblhau a'i ddychwelyd i'r Arolygwr. Disgwylir derbyn adroddiad terfynol a fydd yn cynnwys yr argymhellion rhwymol erbyn 5 Gorffennaf. Hefyd, pan dderbynir yr adroddiad fe fydd i'w weld ar wefan y ddau Gyngor, llyfrgelloedd yn ardal y Cynllun a phrif swyddfeydd y Cynghorau.

Trefn Mabwysiadu

Esboniwyd bydd yr Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r ddau Gyngor – dyddiadau i'w cadarnhau.

Eglurwyd na chaiff y Cynghorau wrthod argymhellion yr Arolygwr. Bydd rhaid dewis naill ai mabwysiadu neu pheidio. Esboniwyd fod gan Llywodraeth Cymru bwerau dewisol i fabwysiadu ar ran y Cynghorau. Hefyd esboniwyd y risgiau o beidio mabwysiadu, sef, ar hyn o bryd nid oes cyflenwad tai yn y ddau Awdurdod. Byddai hyn yn heriol i'r Awdurdod Cynllunio oherwydd efallai na fyddai rheswm cadarn i wrthod ceisiadau heb rhedeg y risg o apeliadau a gan hynny costau i'r Cynghorau.

Eglurwyd, os dewisir i fabwysiadu fe fydd y Cynllun yn cael ei weithredu o'r dyddiad mabwysiadu. Hefyd, o'r dyddiad yma fe fydd cyfnod o 6 wythnos i rywun gyflwyno her Uchel Lys.

Monitro, Adolygu , Diwygio

Esboniwyd caiff y Cynllun ei fonitro yn flynyddol. Mae fframwaith monitro wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun. Drwy fonitro y dangosyddion o fewn y fframwaith, gellir gweld sut mae'r Cynllun yn perfformio, ac os oes angen diwygio / diweddarau tystiolaeth. Bydd adroddiad monitro blynyddol yn cael ei greu erbyn mis Hydref bob blwyddyn. Yn ogystal

â'r adroddiad blynyddol, caiff y Cynllun ei adolygu yn y 4ydd blwyddyn waeth beth fydd casgliadau'r adroddiad monitro blynyddol.

Cynnwys y Cynllun

Cafwyd eglurhad fod y Cynllun wedi ei greu drwy broses sy'n seiliedig ar dystiolaeth o'r cychwyn cyntaf. Mae rhestr o papurau cefndir, papurau testun ac asesiadau wedi cael ei greu ac i'w weld yn Atodiad 2.

Rhodddwyd amlinelliad o gynnwys y Cynllun a'r Polisiau:

- Cyflwyniad
- Cyd-destun Polisi
- Proffil Gofodol a Phrif Faterion
- Gweledigaeth ac Amcanion
- Strategaeth
- Polisiau
- Fframwaith Fonitor
 - Atodiadau (x10)
 - Mapiau Cynigion
 - Mapiau Cyfyngiadau

Yn dilyn yr uchod, bydd rhaid creu Canllawiau Cynllunio Atodol (mae 17 wedi eu rhestru yn Atodiad 9) gyda rhai yn cymryd blaenoriaeth. Bydd y rhain yn cefnogi polisiau'r Cynllun ac yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus. Pan fyddant yn cael eu mabwysiadu byddant yn ystyriaethau cynllunio perthnasol.

Er Gwybodaeth:

Rhodddwyd dolen i 'Dogfennau Llyfrgell' y CDLI ar y Cyd. Bydd sesiynau yn cael eu cynnal i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun.

Pwyntiau a Godwyd:

- Pryderon wedi eu codi mewn rhai cymunedau ynglŷn â'r ffigwr tai. Os na fydd Wylfa yn mynd yn ei flaen, sut mae hyn yn effeithio'r ffigwr, oherwydd nid fydd angen llety gweithwyr.
- Ydi safle Wylfa yn cael ei gynnwys yn ddynodiad cyflogaeth?
- Sut mae'r Cynllun yn mynd i gyfarch y sefyllfa os nad yw Wylfa yn mynd yn ei flaen?
- Lle mae'r 'Swyddi o safon' yn cael eu creu?
- Cyfeiriwyd at safle 'Lairds' a'r posibilrwydd o'i gynnwys yn y Cynllun.
- Rhaid sicrhau fod pentrefi gwledig yn cael cyfleoedd er mwyn eu cadw.
- Gofynnwyd os ydi'r Cynllun yn adlewyrchu gofynion lleol?
- Holwyd faint o dai sydd wedi eu hadeiladu ac os ydynt wedi cael eu cynnwys yn y ffigwr tai.
- Holwyd am un o feini prawf ar gyfer Polisi PS1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig - ydi'r newid geirfa 'sylweddol' i 'o sylwedd' yn ddigon cadarn?
- Gofynnwyd a fydd rôl y Panel yn cynnwys mewnbwn i'r Canllawiau Cynllunio Atodol?
- Cwestiynu'r rhagolygon? Awgrymir fod ffigyrau poblogaeth yn statig.
- Mynegwyd yr angen am dai rhent fforddiadwy yn ogystal â thai fforddiadwy i'w gwerthu.

Ymatebion:

- Ffigwr tai – mae fframwaith monitro yn ei le i gyfarch, adolygu ac adrodd ar sefyllfaoedd fel maent yn codi. Mae'r broses monitro yn galluogi ni i ail ymweld a materion.
- Safle 'Lairds' – cafwyd gwrthwynebiadau ynglyn â'r safle ond bydd rhaid disgwyl i'r Arolygwr adrodd ar hyn.
- Pentrefi a Chlystyrau - mae cyfleon mewn lle ynddynt ond rhaid osgoi gôr-ddatblygu. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru eisiau lleihau'r niferoedd o glystyrau.
- Ynglŷn â'r Cynllun yn adlewyrchu gofynion lleol - dywedwyd fod y ffigwr tai wedi ei adnabod drwy edrych ar y rhagolygon a materion lleol.
- Ynglŷn â thai wedi eu hadeiladu - atebwyd, ers 2011 bod 1,349 wedi eu hadeiladu a 2,748 o unedau gyda chaniatad cynllunio ers Ebrill 2015. Mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y ffigwr tai.
- Ynglŷn â maen prawf ar gyfer PS1 atebwyd fod y newid geirfa o 'sylweddol' i 'o sylwedd' yn ddigon cadarn.
- Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) - Nodwyd fod mewnbyn y Panel i'r CCA yn holl bwysig. Hefyd, esboniwyd nad yw broses y CDLI ar y Cyd yn dod i ben ar ôl i benderfyniad ar y Cynllun gael ei wneud.
- Esboniwyd fod trosi rhagolygon poblogaeth i aelwydydd yn fformiwla gymhleth. Mae angen ystyried bod natur aelwydydd yn newid. Gyda 'newid naturiol' yng Ngwynedd byddai angen 2,065 o unedau. Esboniwyd fod canran mawr o boblogaeth Môn yn hŷn, felly mae yna alwad am wahanol fathau o dai. Mae'r Cynllun wedi plethu rhagolygon lleol a chyfleon economaidd.
- Tai Fforddiadwy Rhent – Esboniwyd fod y Cynllun yn hyrwyddo a hwyluso'r gofynion am dai fforddiadwy i'w rhentu yn ogystal a thai canolraddol, sy'n dai a fydd ar gael am bris rhatach na'r farchnad agored.